

Cwpan Efe

Cynhaliwyd Cwpan Efe echnos yng nghae Ysgol Gynradd Llanrug wedi i ni ohirio bythefnos yn ôl. Roedd rhai o'r timau wedi methu dod nos Wener, ond roedd yno 6 o dimau, a chafwyd noson dda o gystadlu brwd. Diolch yn fawr iawn i Andrew am drefnu'r cyfan ac i Richard Lloyd Jones, Llion Jones a Dafydd Pritchard am ddyfarnu'r gemau.

Chwaraeodd hogiau Capel Coch yn dda iawn, ond eleni Capel y Rhos, Llanrug a Chapel Cysegr, Bethel a gyrhaeddodd y rownd derfynol. Hogiau Cysegr enillodd ar ôl amser ychwanegol. Yn ystod yr egwyl, cafwyd diod a chreision a chefais i ddweud gair am y Ffydd wrth y plant y tro hwn. Diolch i bawb am ddod yno.

Bydd lluniau o'r gystadleuaeth i'w gweld ar wefan yr Ofalaeth o fewn y dyddiau nesaf.

Y mis nesaf - Deiniolen

Gorffennaf 20

5.00 p.m. - Y Parchg Marcus Robinson

Gorffennaf 27

5.00 p.m. - Mr John Roberts

Awst 3:

10.00 a.m. - Y Parchg Olwen Williams

Awst 10:

DIM Oedfa

Awst 17:

DIM Oedfa

Awst 24

10.00 a.m. a 5.00 p.m. - Y Gweinidog

Awst 31

5.00 p.m. - Oedfa

Trip Ysgol Sul

Bydd Trip Ysgol Sul Capel Coch yn mynd i Tŷ Mawr Wybrnant ym mis Medi.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Gorff. 20: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Marcus Robinson, Bethel.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Gorff. 20: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni. Bydd oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal rhai o'r aelodau.

REHOBOTH

Dydd Sul, Gorff. 20: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Gorffennaf 20

10.00 a.m. - Dr Huw Tegid Roberts
5.00 p.m. - Cyfarfod Gweddi

Gorffennaf 27

10.00 a.m. - Oedfa
5.00 p.m. - DIM Oedfa

Awst 3:

10.00 a.m. - DIM Oedfa
5.00 p.m. - Y Parchg Olwen Williams

Awst 10:

10.00 a.m. - Y Parchg Cath Williams
5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Awst 17:

10.00 a.m. - Mr Dewi Jones
5.00 p.m. - DIM Oedfa

Awst 24

10.00 a.m. - Y Parchg Iwan Ll Jones
5.00 p.m. - DIM Oedfa

Awst 31

10.00 a.m. a 5.00 p.m. - Y Gweinidog



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 600 - Dydd Sul, 13 Gorffennaf, 2014

Deddfau Duw

Diddorol yw'r ymateb i ddwy stori'n ymwneud â cheir yn ddiweddar, y naill o wledydd Prydain a'r llall o Ffrainc.

Fe ddylai ceir tramor gael eu cofrestru gyda'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) wedi iddyn nhw fod yng ngwledydd Prydain am 6 mis, ond mae miloedd o geir yn osgoi'r dreth ffordd bob blwyddyn am nad yw eu perchnogion yn eu cofrestru. Mae llawer o gwyno am hynny am fod y Llywodraeth yn colli oddeutu 3 miliwn o bunnoedd bob blwyddyn. A chlywyd llawer yn canmol yr ymdrech i orfodi'r 'twyllwyr' i dalu'r dreth fel pawb arall.

Yn Ffrainc, mae'r heddlu wedi dechrau rhoi dirwyon i yrrwyr tramor sy'n cael eu dal yn gor-yrriu. Ac mae'n rhaid talu mewn arian parod yn y fan a'r lle. Os nad oes gan y gyrrwyr arian parod mae'r heddlu'n mynd â nhw i'r banc i nôl arian. Os nad yw hynny'n bosibl, caiff y car ei gadw hyd nes y llwyddir i gael yr arian. Cymysg fu'r ymateb i'r stori hon yng ngwledydd Prydain, a llawer yn gweld y ddeddfwriaeth yn eithriadol o lym ac yn debyg o beri anhwylystod i ymwelwyr â Ffrainc.

Mae'n ymddangos bod pawb o blaid gweithredu'r ddeddf, ond mae'n haws cefnogi hynny pan nad yw'n effeithio arnom ni. Dylai ceir tramor gael eu cofrestru er mwyn i bawb dalu'r dreth ffordd. Mae'r ddeddf hon yn ddigon rhesymol. Ond pam aros chwe mis? Pam na ellir eu trethu wedi iddyn nhw fod yma am ddeufis neu dri? Mi

fyddwn i, beth bynnag, o blaid hynny. Ond mae'r hyn sy'n digwydd yn Ffrainc yn fater arall. Beth pe bawn i'n mynd yno ar wyliau? Beth pe bawn i'n cael fy nal yn gor-yrriu? Beth pe na fyddai gen i arian parod? Beth pe na fyddai banc wrth law? Beth pe byddai'r heddlu'n cadw fy nghar nes y byddwn wedi cael yr arian? Mae'r ddeddf honno'n swnio'n afresymol iawn, mwya' sydyn!

Mae hynny wastad yn beryg gyda deddfau Duw hefyd. Y deddfau sy'n peri trafferth i ni yw'r deddfau sydd yn ein tyb ni'n effeithio'n uniongyrchol arnom. Rydym yn ddigon hapus efo'r deddfau y credwn ein bod yn eu cadw. Y rhai y gwyddom ein bod yn eu torri sy'n peri trafferth i ni. Ystyriwn y gorchymyn i beidio â lladd yn berffaith resymol, a derbyniwn fod pawb sy'n ei dorri'n pechu'n fawr yn erbyn Duw. Ond tueddwn i feddwl bod pethau fel cenfigen a chymryd enw Duw yn ofer yn llai difrifol - oherwydd ein tuedd i wneud y pethau hyn. Ond yng ngolwg Duw mae'r cyfan yr un mor ddifrifol.

Salm 19 sy'n dweud: 'Y mae cyfraith yr Arglwydd yn berffaith, yn adfywio'r enaid; y mae tystiolaeth yr Arglwydd yn sicr, yn gwneud y syml yn ddoeth; y mae deddfau'r Arglwydd yn gywir, yn llawenhau'r galon; y mae gorchymyn yr Arglwydd yn bur, yn goleuo'r llygaid; y mae ofn yr Arglwydd yn lân, yn para am byth; y mae barnau'r Arglwydd yn wir, yn gyfiawn bob un' (adnodau 7-9).

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch. Dyma'r Ysgol Sul olaf am yr haf a bydd yn gyfarfod arbennig i nodi diwedd tymor. Yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gwasanaethir gan Miss Nerys Jackson, Caernarfon

Byddaf yn arwain yr oedfa yng Nghapel Coch am 10.00 o'r gloch a chynhelir Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch.

Cofion

Dymunwn yn dda hefyd i bawb arall sydd heb fod mewn iechyd cystal ag arfer ar hyn o bryd.

'Cyfri' lawr

Mae rhai ohonoch wedi holi am ystyr y cyfri' lawr o 5 i 1 a welwyd ar flaen Gronyn dros yr wythnosau diwethaf. Tipyn o hwyl oedd hyn i gael gweld a fyddai unrhyw un yn dyfalu'n gywir. Roedd ambell un meddwl bod a wnelo fo â Chwpan y Byd. Ond nid dyna oedd o, ond cyfri lawr at chwe chanfed rhifyn Gronyn heddiw. Oes, mae yna 600 o rifynnau wedi eu cyhoeddi ers mis Medi 2011. Tybed faint ohonoch a wnaeth ddyfalu'n gywir?

Hwn yw'r rhifyn olaf tan ddiwedd Awst.

Cyfarfod Chwarter

Cawsom groesawu Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon i Ebeneser nos Fercher ddiwethaf.

Diolch yn fawr i'r aelodau a gymerodd ran yn y cyfarfod. Diolch i Mrs Eirlys Hughes, Mrs Mona Parry a Mrs Iona Richards am arwain y gwasanaeth ar y cychwyn ac i Mr John Ll. Williams am gyflwyno'r adroddiad am y sefyllfa bresennol yn Ebeneser. Diolch hefyd i Miss Nerys Jackson am gyfeilio.

Cafwyd cyfarfod da dros ben, ac yn ail ran y cyfarfod roedd y Parchg Ronald Williams yn adrodd am Gyfarfodydd Blynnyddol Undeb yr Annibynwyr a gynhaliwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ddiwedd Mehefin. Yn y cyfarfodydd hynny y daeth ei dymor ef fel Llywydd yr Undeb i ben. Roedd ganddo her fawr i'r eglwysi drafod mwy am waith yr Undeb. Roedd gan y ddau swyddog a oedd yn llywio'r cyfarfod gysylltiadau agos ag Ebeneser. Mr Cynrig Hughes oedd yn llywyddu, ac roedd ef wedi ei fagu yma, a Mr Ifor Glyn Efans oedd yr Ysgrifennydd, a bu ef yn weithgar iawn yma pan oedd ef a'r teulu yn byw yn Afon Goch.

Ffair Haf

Cynhaliwyd Ffair Haf yn Festri Capel Coch bawn Mercher, Gorffennaf 9. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth unwaith eto, a diolch y arbennig i bawb a fu'n paratoi at y Ffair ac yn gofalu am y gwahanol stondinau a nwyddau. Gwnaed elw o £453.67 er budd Cronfa'r Capel.

Cymdeithas Undebol

Yn y cyfarfod i drefnu rhaglen tymor newydd y Gymdeithas yn Llanberis ddydd Mawrth diwethaf cytunodd Miss Dilys Mai Roberts a Mrs Anne Parry, yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd i ddal ati am flwyddyn arall. Diolch yn fawr i'r ddwy am eu gwaith.

Cadeiriau

Mae cadeiriau newydd Capel Coch wedi cyrraedd, ac felly mae angen i'r bobl sydd wedi archebu meinciau drefnu i'w nôl o'r festri cyn y gallwn ddadbacio'r cadeiriau a'u gosod yn eu lle. A wnewch chi gysylltu â'r Trysorydd, Mr Colin Jones (871150) er mwyn trefnu bod y festri ar agor i chi ac er mwyn talu am y meinciau os gwelwch yn dda.

Cwpan CIC

Nos Iau, Gorffennaf 10, roedd hogiau CIC Llanberis yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth pêl-droed 5-yr-ochr Cwpan CIC i'r oedran uwchradd yn Abererch. Trefnwyd y cyfan dan nawdd Trobwynt gan Andrew Settatree. Diolch iddo am ei waith unwaith eto.

Yn Ysgol Uwchradd Botwnnog y cafodd y gystadleuaeth hon ei chwarae bob blwyddyn cyn hyn, ond yng Nghanolfan Gristnogol Tŷ Nant, ger Abererch yr oeddem eleni. Daeth naw o dimau yno, o gylch ehangach nag arfer, yn cynnwys Y Bala, Llansannan, Llanberis, Llanrug, Porthmadog a Llithfaen.

Rhannwyd y timau'n ddau grŵp gyda'r ddau uchaf ym mhob grŵp yn mynd i'r rownd gyn-derfynol. Roedd ein dau dim ni (Llanberis A a Llanberis B) mewn grwpiau gwahanol. Enillodd y ddau bob gêm, ond bod Llanberis A wedi colli un gêm - yn erbyn Llanrug o bawb! Roedd hynny'n golygu bod tim B yn gyntaf yn ei grŵp a thîm A yn ail yn ei grŵp, a bod y ddau dim yn erbyn ei gilydd yn y rownd gyn-derfynol. Roedd honno'n llawn hwyl, a Llanberis A a enillodd.

Yn y gêm am y trydydd safle, fe gollodd Llanberis B 1-0 yn erbyn Llansannan, a'r reffari yn dod â'r gem i ben yr eiliad yr oedd un o'n hogiau ni'n cicio'r bêl i'r gôl. Ond doedd y gôl ddim yn cyfrif.

Yn y rownd derfynol roedd Llanberis A yn wynebu Llanrug eto, a Llanberis a enillodd y tro hwn, o 2 gôl i 1.

Wedi'r chwarae, cafwyd barbeciw ac yna sgwrs gan Joseff Edwards, Coleg y Bala. Ei dad, Owain Edwards, oedd i fod yno, ond daeth Joseff yn ei le. Roedd ei sgwrs wedi ei seilio ar Gwpan Y Byd, a'r syndod mawr yr wythnos ddiwethaf o ddeall bod yr Almaen wedi curo Brasil o 7 gôl i 1. Doedd Joseff ddim wedi gweld y gêm, meddai, a doedd o ddim yn coelio'r sgôr nes iddo fynd i chwilio drosto'i hun am luniau ac adroddiadau. Ac felly y mae hi, meddai, efo Iesu Grist a'r Efengyl. Mae yna rywbeth anhygoel am gariad Duw yn ei Fab Iesu Grist ac mae'n rhaid i bob un ohonom edrych drosto'i hun er mwyn gweld bod y neges a'r cyfan a ddywedir am Iesu yn wir.

Roedd yn noson gwerth chweil, a diolch yn fawr iawn i Eira Morris a Rodney Collins am ddod efo ni i gludo'r hogiau nôl a blaen. Diolch i Rodney hefyd am ei help efo'r dyfarnu eleni eto..

Bydd lluniau o'r gystadleuaeth i'w gweld ar wefan yr Ofalaeth o fewn y dyddiau nesaf.